Uwch Guradur Botaneg a Chydlynydd Bioamrywiaeth

Cyfadran Casgliadau ac Ymchwil, Adran y Gwyddorau Naturiol

Lleoliad: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Yn Amgueddfa Cymru mae casgliad mwyaf helaeth a chynhwysfawr y byd o sbesimenau daeareg, sŵoleg a botaneg Cymreig – cofnod unigryw o hanes naturiol Cymru a'i newid esblygiadol ac amgylcheddol. Rydym yn defnyddio'r casgliadau hyn i gyflawni ein Gweledigaeth, gan ganolbwyntio yn benodol ar gynhwysiant, gwarchod yr amgylchedd, a'n presenoldeb digidol. Mae ein holl gasgliadau yn eiddo i bobl Cymru, ac rydym am ganfod ffyrdd newydd i'w gwneud yn adnodd perthnasol a defnyddiol i bawb eu harchwilio a'u mwynhau.

Mae'r Amgueddfa hefyd yn gartref i Lysieufa Genedlaethol Cymru, sy'n cynnwys sbesimenau botaneg o bob cwr o Gymru a'r byd, gan gynnwys Casgliad Cymdeithas Bryoffytau Prydain. Mae'r Llysieufa yn dyst i 300 mlynedd o gasglu ac mae o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r casgliadau hyn yn sail i'n gwaith o ddeall, gwarchod a hybu bioamrywiaeth yng Nghymru, ac yn cyfrannu at ymchwil tacsonomaidd rhyngwladol.

Mae gan Amgueddfa Cymru wyth safle ledled y wlad, pob un â'i nodweddion naturiol unigryw. Bydd y rôl hon yn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r safleoedd hyn ac yn ceisio ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau i archwilio bioamrywiaeth a sut y gallwn gydweithio i warchod ac adfer byd natur.

Eich gwaith…

Byddwch yn chwarae rôl strategol flaenllaw wrth gyflawni nod yr Amgueddfa o ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ar draws wyth safle'r Amgueddfa, a hynny drwy gynllunio a chydlynu gwaith maes i greu rhaglen barhaus o arolygon bioamrywiaeth. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu a chydweithio â grwpiau cymunedol a grwpiau arbenigol. Byddwch yn derbyn cefnogaeth y Pennaeth Dros Dro Y Gwyddorau Naturiol , fydd yn arwain elfen fioamrywiaeth Cynllun Rheoli Tir a Natur yr Amgueddfa.

Fel un o chwe aelod staff yr Adran Botaneg, byddwch yn gweithio gyda'r Curadur Planhigion Is i sicrhau y caiff y casgliad ei guradu a'i ofalu amdano er mwyn cynyddu mynediad a defnydd ehangach, a thrwy hynny gyflawni amcanion Amgueddfa Cymru.

Byddwch yn defnyddio eich arbenigedd tacsonomeg i ddatblygu'r casgliad planhigion is drwy gyfrwng projectau ymchwil ar y cyd, gan sicrhau bod y casgliad yn dal i fod yn berthnasol fel adnodd cyfeiriol amgylcheddol. Caiff hyfforddiant ei ddarparu os yw eich profiad tacsonomeg blaenorol gyda phlanhigion uwch. Byddwch yn datblygu partneriaethau newydd gyda chyrff perthnasol i hyrwyddo defnydd y casgliad a

meithrin cysylltiadau presennol.

Byddwch yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus, ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r casgliad a'r adran Gwyddorau Naturiol.

Byddwch yn atebol i'r Pennaeth Dros Dro Y Gwyddorau Naturiol

Eich nod…

- Cynhyrchu data cyfredol o fioamrywiaeth safleoedd yr Amgueddfa ar gyfer y Pennaeth Dros Dro Y Gwyddorau Naturiol er mwyn cefnogi'r Weledigaeth a'r Cynllun Rheoli Tir Gwyrdd.
- Annog cymunedau, grwpiau arbenigol a phartneriaid i ymwneud fwyfwy gyda'r broses arolygu bioamrywiaeth.
- Creu casgliad sy'n parhau yn berthnasol fel adnodd cyfeiriol amgylcheddol.
- Cyfrannu at gasgliad planhigion is sydd wedi'i guradu a'i reoli'n dda, er mwyn cynyddu mynediad, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol.
- Hyrwyddo'r casgliad planhigion is yng Nghymru, yn ddigidol a thrwy ddigwyddiadau, cyfryngau cymdeithasol a chynlluniau eraill.
- Rhannu'r casgliadau, gan ddefnyddio eich arbenigedd planhigion is i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.
- Creu rhaglen ymchwil effeithiol i'r casgliad, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth well o fioamrywiaeth Cymru.
- Creu cyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr yng Nghymru drwy oruchwylio projectau myfyrwyr a gwirfoddolwyr.

Sut i gyrraedd y nod...

Meysydd gwaith (os yn briodol) e.e. strategol, gweithredol

- Arwain ar gyflawni ein rhaglen o archwiliadau bioamrywiaeth maes ar draws holl safleoedd yr Amgueddfa er mwyn cael gwybodaeth am y sefyllfa ecolegol bresennol.

- Datblygu elfen gyfranogol i'r arolygon bioamrywiaeth gyda chymunedau, grwpiau arbenigol a phartneriaid.

- Datblygu rhaglenni casglu sy'n cyfoethogi'r casgliad a llenwi'r bylchau a nodir

yn y Strategaeth Datblygu Casgliadau.

- Datblygu a chynnal ymchwil i'r casgliad sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Ymchwil ac yn cefnogi astudiaethau bioamrywiaeth a thacsonomeg yng Nghymru.

- Datblygu'r casgliad planhigion drwy guradu deunydd hen a newydd, ac arolygu a threfnu'r casgliad.

- Cymryd rhan ym mhrojectau digideiddio'r Gwyddorau Naturiol gan alluogi presenoldeb ar-lein i'r casgliadau botaneg fydd yn arwain at well mynediad, mwynhad a dealltwriaeth.

- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus i hyrwyddo gwaith yr Amgueddfa, e.e. dyddiau agored, teithiau tu ôl i'r llenni. Cyfrannu hefyd at gyfryngau cymdeithasol a blogiau.

- Goruchwylio projectau myfyrwyr a dyfeisio a chefnogi projectau gwirfoddoli.

Sut i gefnogi amcanion corfforaethol Amgueddfa Cymru...

- Cyfrannu at sicrhau bod amcanion strategaeth Amgueddfa Cymru 2030 yn cael eu gwireddu, yn arbennig:

    - Sicrhau bod pawb yn cael eu cynrychioli
    - Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd
    - Datblygu a darganfod yn ddigidol a chreu cysylltiadau byd-eang.

- Ymroi yn llawn i gefnogi egwyddorion cyfleoedd cyfartal fel yr amlinellir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad a'u gweithredu.

- Sicrhau bod yr adran yn cydymffurfio â pholisïau'r Amgueddfa ar Gynaliadwyedd a'r iaith Gymraeg.

- Yn rhan o'ch telerau cyflogaeth, mae'n bosibl y gofynnir i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill a/neu weithio oriau eraill fel sy'n rhesymol, yn unol â'ch gradd neu'ch lefel cyfrifoldeb cyffredinol o fewn y sefydliad.

Rydyn ni'n chwilio am bobl…

- Sy'n angerddol dros fyd natur ac wedi ymrwymo i ddiogelu byd natur Cymru.

- Sydd am datblygu ymgysylltiad a chyfraniad y cyhoedd i'n rhaglenni bioamrywiaeth.

- Sy'n frwdfrydig dros gasgliadau botanegol a sicrhau mynediad eang atynt.

- Sy'n awyddus i hyrwyddo gwaith Gwyddorau Naturiol i'r cyhoedd a chymunedau.

- A fydd yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr.
- Sy’n angerddol ac yn gyffrous am waith Amgueddfa Cymru.
- Sy'n gallu gweithio oriau hyblyg, gweithio i derfynau amser, a delio â phroblemau annisgwyl.
- Sydd ag agwedd ac ymddygiad sy'n cyfateb i werthoedd yr Amgueddfa (cydweithio, tegwch, creadigrwydd, gonestrwydd a chyfrifoldeb).

Y wybodaeth a’r cymwysterau angenrheidiol…

- Gradd mewn botaneg neu bwnc cysylltiedig, neu brofiad ymarferol, proffesiynol cyfwerth.
- Byddai cymhwyster ôl-radd mewn pwnc ecolegol neu fotanegol yn ddymunol.
- Gwybodaeth am arferion presennol cynnal archwiliadau bioamrywiaeth tir.
- Arbenigedd mewn ardal o dacsonomeg planhigion is sy'n ategu arbenigedd presennol ein staff, neu arbenigedd mewn maes botaneg arall a pharodrwydd i ddysgu.
- Gwybodaeth am gronfeydd data biolegol a meddalwedd Microsoft safonol.

Y profiad angenrheidiol...

- Profiad o weithio gyda chasgliadau botaneg, a'u curadu.
- Profiad o gynnal arolygon bioamrywiaeth tir.
- Profiad o ysgrifennu adroddiadau biolegol a rhannu gwybodaeth.
- Profiad o ddatblygu cynlluniau a gweithio gyda rhanddeiliaid allanol.
- Profiad o gyflawn projectau curadurol a phrojectau ymchwil.
- Profiad o ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes y gwyddorau naturiol.

Y sgiliau angenrheidiol...

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac ar bapur, gyda’r gallu i gyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol, ac i gyfathrebu gydag ystod o gynulleidfaoedd mewn modd bywiog a hygyrch.
- Y gallu i ddadansoddi a syntheseiddio data a gwybodaeth ysgrifenedig.
- Y gallu i astudio ar eich liwt eich hun i gyrraedd amcanion a bennwyd.

- Y gallu i ddatblygu cynnwys cywir a deniadol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Sgiliau trefnu rhagorol gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu gwaith, gweithio ar nifer o brojectau ar y tro, a gweithio gydag amserlen groestynnol.
- Gallu defnyddio'r rhyngrwyd, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol yn hyderus.
- Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu barodrwydd i ddysgu yn ddymunol.

Beth sy'n bwysig i ni...

Rydym yn annog pob aelod o'n staff i arddel ein gwerthoedd sefydliadol yn ei waith o ddydd i ddydd. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos sut mae'n arddel y gwerthoedd hyn yn ei waith a'i fywyd ar hyn o bryd.

- **Creadigrwydd**
  Rydym yn ysbrydoli creadigrwydd drwy ein hamgueddfeydd, ein casgliadau a sgiliau ein staff a'n gwirfoddolwyr.
- **Cyfrifoldeb**
  Rydym yn gyfrifol am ein gilydd, ein hymwelwyr, yr amgylchedd a'r iaith Gymraeg, gan ofalu am les ein gilydd a'r casgliadau cenedlaethol.
- **Gonestrwydd**
  Rydym yn gweithredu'n onest bob amser, gan gynnal safonau proffesiynol drwy fod yn ddidwyll ac yn ddibynadwy.
- **Tegwch**
  Mae ein hamgueddfeydd yn gynhwysol, ac rydym yn parchu amrywiaeth ein staff a'n hymwelwyr.
- **Cydweithio**
  Rydym yn cydweithio â'n gilydd, gyda chymunedau a phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Amodau a Thelerau...

Cyflog cychwynnol	Gradd E £27,997 - £34,257 y flwyddyn Bydd yr ymgeisydd yn cael ei benodi ar isafswm y raddfa gyflog hon fel arfer.
Hyd y contract	Parhaol
Oriau'r contract	35 awr yr wythnos (bydd 37 awr yn cael ei ystyried ar gyfer aelodau staff presennol sydd ar gytundeb llawn amser ar hyn o bryd).
Gwyliau Blynyddol	27 diwrnod adeg penodi, yn codi i 32 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ynghyd ag un diwrnod braint adeg y Nadolig ac 8 gŵyl banc (ar gyfer staff amser llawn). Pro rata ar gyfer staff rhan amser.
Cyfnod prawf	Mae cyfnod prawf o 6 mis yn berthnasol i'r swydd hon.
Mae pob penodiad newydd yn dibynnu ar dderbyn geirda, adroddiad meddygol ac archwiliad boddhaol o euogfarnau troseddol a phrawf o hawl i weithio yn y DU.	

Sut i wneud cais:

Dylai ymgeiswyr am y swydd lenwi'r ffurflen gais sydd ar gael ar dudalen Swyddi ein gwefan sef www.amgueddfa.cymru. Mae'r ffurflen yn rhoi cyfle i chi egluro sut mae eich cymwysterau, eich profiad a'ch rhinweddau personol yn eich gwneud yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd.

Cewch gyflwyno'ch cais yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'r cyfeiriad e-bost hwn:

ad.swyddi@amgueddfacymru.ac.uk

neu ei phostio i'r:

Adran Adnoddau Dynol
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP

Ffôn: (029) 2057 3306

Sylwer bod rhaid i bob cais am swydd ein cyrraedd erbyn 5pm ar y dyddiad cau. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar ôl hynny.

Bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflenni Archwilio Cefndir a Monitro cyn i ni brosesu eich cais.

Peidiwch ag anfon CV, dim ond ffurflenni cais gaiff eu hystyried.

Yn anffodus, oherwydd y nifer o geisiadau a ddisgwylir ar gyfer y swydd hon, ni fydd yn bosibl i ni ysgrifennu'n bersonol at bob ymgeisydd aflwyddiannus. Fodd bynnag, bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal fel arfer o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau.

Mae Amgueddfa Cymru yn gyflogwyr cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau o bob rhan o'r gymdeithas.

Senior Curator Botany & Biodiversity Coordinator

Collections and Research Division, Natural Sciences Department

Location: National Museum Cardiff

Amgueddfa Cymru holds the largest and most comprehensive collection of Welsh botany, geology, and zoology and botany specimens in the world, and this provides a unique record of the natural history of Wales, charting evolutionary and environmental change. We use these collections to deliver the Vision commitments, with particular focus on inclusivity, protecting the environment and digital presence. All of our collections belong to the people of Wales, and we want to find new ways in which we can make them a relevant and useful resource for everyone to explore and enjoy.

The museum is also home to Welsh National Herbarium which contains botanical specimens from Wales and across the world, including the British Bryophyte Society Collection. This is of international importance and represents over 300 years of collecting. These collections underpin our understanding, maintenance and enhancement of biodiversity in Wales and contribute to global research in taxonomy.

Amgueddfa Cymru has eight sites across the whole of Wales, each with its distinctive natural characteristics. This role will support the development of a better understanding of these sites and seek to engage with a range of communities in exploring biodiversity and how we can work together to protect and restore nature.

What you'll do…

You will play a major role in delivering the Museum's goal to safeguard and increase biodiversity across the Museum's eight sites, by planning and co-ordinating field activity to produce a rolling programme of biodiversity surveys. This will also include the involvement of community groups and special interest groups. You will be supported by the Acting Head of Natural Sciences, who will lead on the biodiversity component of the Museums Land & Nature Management Plan.

As part of the Botany Section of six staff, you will work with the Curator of Lower Plants to ensure that this collection is curated and cared for to maximise access and wider use, and through this deliver the Amgueddfa Cymru commitments.

You will use your taxonomic expertise, to develop the lower plant collection though collaborative research projects. This will ensure the collection remains relevant as an environmental reference resource. Training will be provided if your taxonomic experience has previously been with higher plants. You will develop new partnerships with relevant bodies to promote use of the collection and maintain existing ones.

You will take part in public events, activities and engage with social media to promote the collection and the Natural Sciences department.

Reporting to Acting Head of Natural Sciences

What you'll achieve…

- Production of updated data on the biodiversity of our museum sites for the Acting Head of Natural Sciences to support the Vison and Green Land Management Plan.
- Wider engagement of communities, special interest groups and partners, in the biodiversity survey process
- A collection which stays relevant as an environmental reference resource.
- Contribute to a well curated and managed lower plants collection to maximize access, both physical and digital
- Promotion of the lower plant collection in Wales digitally and through events, social media and other initiatives.
- Sharing of the collections, using your expertise in lower plants to engage a wide range of audiences.
- An effective collection-based research programme which contributes to understanding of the biodiversity of Wales
- Create opportunities for the next generation of scientists in Wales by supervising student projects and volunteers.

How you'll achieve this…

Areas of work (if appropriate) e.g. strategic, operational

- Take a lead role in delivering a programme of biodiversity field surveys across our museum sites to capture information on the current ecological situation.

- Develop a participatory element to the biodiversity surveys with communities, special interest groups and partners.

- Develop collecting programmes, which enhance the collection and 'fill in gaps' identified in the Collection Development Strategy

- Develop and deliver collection-based research which aligns with the Research Strategy and supports biodiversity studies and taxonomy in Wales.

- Enhance the lower plant collection through curation of existing and new material audit and rationalization of the collection

- Contribute to the Natural Science digitization programme enabling an online presence of the botany collections leading to greater access, enjoyment and understanding.

- Participate in outward facing events to promote work of the museum e.g. open days, behind the scenes events, also contribute to social media and blogs.

- Supervise student projects and devise and support volunteer projects.

How you'll support Amgueddfa Cymru's corporate objectives…

- Participate actively to ensure that commitments of the Amgueddfa Cymru 2030 strategy are achieved, in particular:

    - Making sure everyone is represented.
    - Help safeguard and restore nature and our environment.
    - Discover and explore digitally and building global connections.

- Participate actively in supporting the principles and practice of equality of opportunity as laid down in Amgueddfa Cymru's Equality & Diversity Policy

- Support the department's compliance with Amgueddfa Cymru's policies on Sustainability and the Welsh language

- As a term of your employment you may be required to undertake such other duties and/or times of work as may reasonably be required of you, commensurate with your grade or general level of responsibility within the organization

We're looking for people who…

- Have a passion for the natural world and committed to safeguarding the nature of Wales

- Want to develop public engagement and participatory practice into our biodiversity programmes.

- Are enthusiastic about botanical collections and making them accessible.

- Are keen to promote the work of Natural Sciences to the public and communities.

- Will encourage the next generation of scientists.
- Are passionate and excited about the work of Amgueddfa Cymru.
- Can work flexibly, to meet deadlines and deal with unexpected issues
- Have the attitudes and behaviour that are aligned with our values (collaborative, inclusive, inspire creativity, integrity and responsible)

The knowledge and qualifications you'll need…

- A degree in botany or an allied subject, or equivalent practical professional experience.
- A postgraduate qualification in a botanical or ecological subject area is desirable.
- Knowledge of current practice of undertaking terrestrial biodiversity surveys.
- Expertise in lower plant taxonomy to complement existing staff specialisms or expertise in another botanical area and a willingness to learn.
- Knowledge of biological databases and standard Microsoft software.

The experience you'll need…

- Experience in working with, and curating botany collections .
- Experience of undertaking terrestrial biodiversity surveys.
- Experience writing biological reports and disseminating information.
- Experience of developing plans and working with external stakeholders.
- Experience delivering curatorial and research projects.
- Experience of public engagement in natural science

The skills you'll need…

- Excellent communication skills, both written and oral, with the ability to communicate effectively with colleagues and external stakeholders, and to engage a range of audiences in a lively and accessible manner.
- The ability to analyze and synthesis data and written information.
- Ability to undertake self-guided study to achieve predefined goals.
- Develop accurate and engaging content for a variety of audiences.

- Excellent organizational skills, including the ability to prioritize workloads, multi-task, and work with competing deadlines.
- A confident user of internet, email and social media.
- The ability to communicate in Welsh, or the willingness to learn, is desirable.

What we care about….

We encourage all our staff to demonstrate our organisational values in their day to-day role. The successful candidate will need to demonstrate how they live these values in their current work and life.

- **Creativity**
  We inspire creativity through our museums, collections and the skills of our staff and volunteers.
- **Responsibility**
  We are responsible towards each other, our visitors, the environment and the Welsh language, caring for each other's well-being as well as the national collections.
- **Integrity**
  We act with integrity at all times, maintaining professional standards by being honest and trustworthy.
- **Equity**
  Our museums are inclusive, and we respect the diversity of both our staff and visitors.
- **Collaboration**
  We work collaboratively, with each other, with communities and with local, national, and international partners

Terms & Conditions…

Starting salary	Grade E: £27,997 - £34,257 per annum Appointment will normally be to the minimum of the salary scale for this grade.
Contract length	Permanent
Contract hours	35 hours/week (37 hours will be considered for existing members of staff who are currently on a full-time contract).
Annual Leave	27 days on appointment, rising to 32 days after 5 years service, plus one privilege day at Christmas and 8 bank holidays (for full time staff). Pro rata for part-time staff.
Probation	The post is subject to a probationary period of 6 months.
All new appointments are subject to the receipt of satisfactory references, medical report and criminal conviction vetting clearance plus proof of eligibility to work in the UK.	

How to Apply:

Applicants for the post should complete our on-line application form which can be found on the Jobs page on our website at www.museumwales.ac.uk. The form provides the opportunity to explain how your qualifications, experience and personal qualities make you a suitable candidate for the position.

Applications can be submitted in Welsh. Applications that are submitted in Welsh will be treated no less favourably than those submitted in English.

Completed forms should be returned by e-mail to:

hr@museumwales.ac.uk

or posted to:

the Human Resources Department
Amgueddfa Cymru - National Museum Wales
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NP
Telephone: (029) 2057 3306

Please note that all vacancies close at 5pm on the closing date. No applications will be accepted after this time.

We will need you to submit the Vetting and Equality Monitoring Forms before we can process your application.

Please do not send us your CV – we will only consider completed application forms.

Unfortunately, due to the number of applications we expect in respect of this post, it will not be possible to write personally to each unsuccessful applicant. However, interviews are normally arranged within three weeks of the closing date.

Amgueddfa Cymru — National Museum Wales is an equal opportunities employer. Applications are welcome from all sections of the community.